# YSGOLION YR 21AIN GANRIF












## ATODIAD A – ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMUNED

## YMGYNGHORIAD AR GYNNIG I AGOR YSGOL ARBENNIG 3 I 19 OED NEWYDD YN RHONDDA CYNON TAF

Mae'r ddogfen ymgynghori ac atodiadau hefyd ar gael ar y dudalen 'Dod yn rhan o bethau' ar wefan y Cyngor

RHONDDA CYNON TAF

**Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned**

**Cyflwyniad**

Caiff yr Asesiad yma o'r Effaith ar y Gymuned ei lunio yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion – 2018 (011/2018). Mae i'w ddarllen ochr yn ochr â'r Ddogfen Ymgynghori, yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg gan fod yr wybodaeth ym mhob dogfen yn gysylltiedig ac mae'r themâu ynddyn nhw'n drawsbynciol.

Mae Adran 2.1 o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 (011/2018) yn cyfeirio at elfennau o drefniadaeth ysgolion sy'n gofyn am gyhoeddi cynigion, gan gynnwys:

- Agor ysgol a gynhelir (gan gynnwys ysgol arbennig).

Y cynnig yw agor ysgol arbennig 3 i 19 oed cyfrwng Saesneg newydd yn Rhondda Cynon Taf (RhCT) a chyflwyno dalgylchoedd ar gyfer ysgolion arbennig.

Bydd yr ymgynghoriad ar y cynnig yma yn dechrau ar 4 Gorffennaf 2023 ac yn dod i ben am 17:00 ar 15 Medi 2023. Mae'r Ddogfen Ymgynghori wedi'i dosbarthu i'r holl randdeiliaid penodedig. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yma yn Atodiad i'r Ddogfen Ymgynghori.

**<u>Y Cynnig</u>**

Y cynnig yw agor ysgol arbennig 3 i 19 oed newydd (cyfrwng Saesneg) yn RhCT gyda lle i 180 o ddisgyblion. Serch hynny, bydd hyn yn dibynnu ar ganlyniad asesiad dichonoldeb pellach ac yn dilyn bwrw ymlaen â chynllun manwl yr ysgol newydd. Bydd yr ysgol newydd yn darparu addysg i ddisgyblion sydd ag ystod o anghenion dysgu ychwanegol gan gynnwys anhwylderau'r sbectrwm awtistig, anawsterau dysgu difrifol, anawsterau dysgu dwys a lluosog, anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, a nam ar y synhwyrau.

Bydd yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu yn ardal Cwm Clydach, Tonypandy, ac yn agor ar ddechrau'r flwyddyn academaidd 2026 fan bellaf. Mae'r ysgol newydd yn ychwanegol at y pedair ysgol arbennig arall sydd eisoes ar agor yn Rhondda Cynon Taf.

Yn ogystal â hynny, y cynnig yw cyflwyno dalgylchoedd ar gyfer yr holl ysgolion arbennig 3 i 19 ar draws RhCT, sef:

- Ysgol Arbennig Park Lane
- Ysgol Hen Felin
- Ysgol Tŷ Coch

.

## Effaith ar y Gymuned

Byddai'r ysgol arbennig 3-19 newydd yn cael ei hadeiladu yn unol â gofynion cynllunio cyfredol a deddfwriaethau rheoli adeiladu. Bydd yr ysgol hefyd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Bydd yr ysgol yn cynnwys:

- Amgylcheddau dysgu modern a hyblyg i'r holl ddisgyblion, neuadd/ardal giniawa, ac ardaloedd addysgu a dysgu arbenigol i ddarparu ar gyfer anghenion yr holl ddisgyblion.
- Pwll hydrotherapi ynghyd ag offer arbenigol synhwyraidd ac ysgogol eraill.
- Bydd ardal benodol yn yr ysgol fel bod modd i'r gymuned leol ddefnyddio'r cyfleusterau'n ddiogel, a hynny yn ystod y diwrnod ysgol ac ar ei ôl.
- Mannau awyr agored gwell i gefnogi'r ystod lawn o weithgareddau'r cwricwlwm.
- Systemau rheoli traffig, gan gynnwys man gollwng disgyblion sy'n teithio ar fysiau i'r safle a maes parcio i'r staff.

Bydd yr ysgol newydd yn gwbl hygyrch ac yn ysgol gymunedol gwbl integredig. Bydd ardal benodol yn cael ei dylunio yn yr ysgol fel bod modd i'r gymuned leol ddefnyddio'r cyfleusterau'n ddiogel, a hynny yn ystod y diwrnod ysgol ac ar ei ôl.

Bydd y cynnig hefyd yn cynnwys adolygiad o lwybrau diogel i'r ysgol ac, os bydd angen, buddsoddiad mewn gwelliannau i lwybrau cerdded, croesfannau ffyrdd a mesurau arafu traffig i sicrhau bod y safonau diogelwch gofynnol yn cael eu bodloni. Dyma’r dull rydyn ni wedi’i roi ar waith mewn cymunedau eraill wrth gyflwyno Band B y rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, lle mae gwelliannau sylweddol yn cael eu gwneud.

Amcangyfrif cost cyfalaf y cynnig yma yw £53.4 miliwn. Bydd hyn yn cael ei ariannu gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru drwy'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, gyda Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru yn ariannu hyd at 75.0%. Caiff y costau eu datblygu ochr yn ochr â'r broses ymgynghori a chaiff cymeradwyaeth ei cheisio yn unol â gweithdrefnau'r Cyngor o ran dod i benderfyniadau.

Mae cyfleusterau cymunedol sy’n cael eu defnyddio’n aml iawn ar bwys safle'r ysgol newydd arfaethedig gan gynnwys:

- Canolfan i Ymwelwyr a Pharc Gwledig Cwm Clydach.
- Cae Pêl-droed
- Trac rhedeg sydd â chyfleusterau newid.

Roedd y rhain yn rhan o'r penderfyniad dros ddewis y safle yma. Mae'r cyfleusterau cymunedol yma i'w gweld yn y ddelwedd ganlynol o leoliad yr ysgol newydd arfaethedig.




*Delwedd o leoliad yr ysgol newydd arfaethedig.*

Gobeithiwn y bydd y mannau cymunedol ychwanegol a fydd yn rhan o'r ysgol newydd yn golygu bydd y gymuned yn gwneud defnydd mwy o'r ardal.

**Newidiadau i Ddalgylchoedd**

Ar hyn o bryd mae'r Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant a Phaneli Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant y Cyngor yn cytuno ar roi lle i ddisgyblion mewn ysgolion arbennig, ac mae disgyblion yn cael lle yn yr ysgol arbennig addas agosaf at eu cartref lle bo modd. Serch hynny, er mwyn rheoli dyraniad lleoedd ysgolion arbennig ledled RhCT yn well, y cynnig ydy cyflwyno dalgylchoedd penodol ar gyfer pob ysgol arbennig 3 i 19 ledled RhCT.

Wrth agor, caiff disgyblion sydd eisoes yn mynychu ysgolion arbennig 3 i 19 oed eraill ond sy'n byw yn nalgylch yr ysgol arbennig newydd symud i'r ysgol newydd, os dyna'u dymuniad. Fydd hyn ddim yn orfodol a dewis rhieni/gwarcheidwaid fydd hyn. Fodd bynnag, unwaith y daw'r newidiadau i ddalgylchoedd i rym, bydd Paneli Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant y Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant yn rhoi llefydd i ddisgyblion newydd mewn darpariaeth arbenigol yn unol â ffiniau'r dalgylchoedd sydd newydd eu diffinio.

Mae mapiau sy'n nodi'r dalgylchoedd ysgolion arbennig arfaethedig wedi'u cynnwys yn y Ddogfen Ymgynghori. Fydd Ysgol Arbennig Maesgwyn ddim yn cael ei chynnwys yn y broses yma gan ei bod yn cynnig darpariaeth wahanol i'r ysgolion arbennig eraill. Yn ogystal â'r ysgol arbennig 3 i 19 newydd, bydd y dalgylchoedd newydd arfaethedig yn cynnwys Ysgol Arbennig Park Lane, Ysgol Hen Felin ac Ysgol Tŷ Coch. Cynigir y rhain fel a ganlyn:

- **Ysgol Arbennig 3 i 19 newydd yn RhCT** – Cyfuno dalgylchoedd Ysgol Gymuned y Porth, Ysgol Gymuned Tonyrefail, Ysgol Nant-gwyn (ac eithrio

Ysgol Gynradd Pontrhondda) ac Ysgol Gynradd Coed-y-lan ac Ysgol Gynradd Trehopcyn.
- **Ysgol Arbennig Park Lane** – Cyfuno dalgylchoedd Ysgol Gymunedol Aberdâr ac Ysgol Gyfun Aberpennar.
- **Ysgol Hen Felin** – Cyfuno dalgylchoedd Ysgol Gymunedol Glynrhedynog, Ysgol Gyfun Treorci, Ysgol Gynradd Pontrhondda.
- **Ysgol Tŷ Coch** – Cyfuno dalgylchoedd Ysgol Gyfun Bryncelynnog, Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen, Ysgol Uwchradd Pontypridd (heblaw Ysgol Gynradd Coed-y-lan ac Ysgol Gynradd Trehopcyn) ac Ysgol Gyfun Y Pant.

## Goblygiadau o ran Trafnidiaeth a Theithio

Mae'n ddyletswydd statudol ar bob Awdurdod Lleol yng Nghymru i ddarparu cludiant am ddim i ddisgyblion i'w hysgolion addas agosaf os ydyn nhw'n byw pellter sydd y tu hwnt i 'bellter cerdded' o'r ysgol honno. Mae'r term 'ysgol addas' yn cyfeirio at ddalgylch ysgol cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg, ysgol cyfrwng Cymraeg a Saesneg, neu ysgol prif ffrwd wirfoddol gymorthedig cynradd, uwchradd neu ysgol/dosbarth arbennig fel y bo'n briodol. Mae'r gyfraith yn diffinio 'pellter cerdded' yn ddwy filltir i ddisgyblion o oedran addysg gynradd gorfodol a thair milltir i bob disgybl o oedran addysg uwchradd gorfodol.

Mae'r Cyngor wedi defnyddio'r disgresiwn sydd wedi'i roi iddo gan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (Mesur 2008), a chynnig darpariaeth fwy hael i ddisgyblion. Mae'r wybodaeth berthnasol mewn perthynas â'r ysgol newydd wedi'i nodi isod:

- Mae'r maen prawf ar gyfer pellter cerdded i ddisgyblion sy'n derbyn addysg gynradd orfodol yn eu hysgol addas agosaf wedi cael ei osod ar 1½ milltir, yn hytrach na 2 filltir fel sy'n ofynnol gan Fesur 2008.
- Mae cludiant am ddim i'w hysgol addas agosaf, lle mae lleoedd ar gael, yn cael ei ddarparu i ddisgyblion sy'n bodloni'r maen prawf 1½ milltir o ddechrau'r Cyfnod Sylfaen (dechrau'r tymor ysgol ar ôl eu pen-blwydd yn 3 oed), yn hytrach nag o ddechrau addysg orfodol (dechrau'r tymor ysgol ar ôl eu pen-blwydd yn 5 oed) fel sy'n ofynnol gan Fesur 2008.
- Mae'r maen prawf ar gyfer pellter cerdded i ddisgyblion sy'n cael addysg uwchradd orfodol yn eu hysgol addas agosaf wedi cael ei osod ar 2 milltir, yn hytrach na 3 filltir fel sy'n ofynnol gan Fesur 2008.
- Mae cludiant am ddim yn cael ei ddarparu i ddisgyblion ôl-16 oed sy'n bodloni'r maen prawf 2 filltir, a hynny tan ddiwedd y flwyddyn academaidd y maen nhw'n cael eu pen-blwydd yn 19 oed.

Mae rhagor o wybodaeth mewn perthynas â darpariaeth cludiant o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor ar gael i'w darllen a'i lawrlwytho o wefan y Cyngor:

https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/ParkingRoadsandTravel/Travel/SchoolandCollegeTransport/SchoolTransport.aspx

Mae llawer o ddisgyblion (75.9%) sy'n defnyddio'r ysgolion arbennig ledled RhCT ar hyn o bryd yn defnyddio cludiant o'r cartref i'r ysgol. Bydd y cynnig yn

cynnwys adolygiad o lwybrau diogel i'r ysgol ac, os bydd angen, buddsoddiad mewn gwelliannau i lwybrau cerdded, croesfannau ffyrdd a mesurau arafu traffig i sicrhau bod y safonau diogelwch gofynnol yn cael eu bodloni. Dyma'r dull rydyn ni wedi'i roi ar waith mewn cymunedau eraill wrth gyflwyno Band B y rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, lle mae gwelliannau sylweddol yn cael eu gwneud.

**'Tu allan i oriau ysgol' – Defnydd Presennol**

Bydd yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu yn unol â gofynion presennol y ddeddfwriaeth cynllunio a rheoli adeiladu a bydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Bydd pennaeth yr ysgol newydd, felly, yn cael ei annog a'i gefnogi i ystyried defnyddio'r cyfleusterau yma fel eu bod yn cael eu defnyddio'n fwy aml y tu allan i oriau ysgol. Efallai bydd hyn yn cynnwys clwb brecwast ac amrywiaeth o glybiau ar ôl ysgol, gan gynnwys chwaraeon, coginio a chelf.

Serch hynny, gan bydd y cynnig yma'n creu darpariaeth newydd sbon, bydd y ddarpariaeth yma'n cael ei datblygu.

**Effaith ar Iechyd a Lles**

Bydd yr ysgol newydd yn amgylchedd dysgu ac addysgu modern a lliwgar sy'n addas i'r 21[ain] Ganrif. Heb os, bydd yr effaith ar iechyd a lles staff a disgyblion yn gadarnhaol o ystyried y cyfleusterau newydd sbon a'r lleoliad gwyrdd, bioamrywiol a heddychlon.

Bydd yr adeilad ysgol newydd yn addas i'r diben a bydd yn darparu meysydd addysgu a dysgu hyblyg er mwyn sicrhau bod y Cwricwlwm Newydd i Gymru yn cael ei gyflwyno. Bydd y mannau allanol yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles staff a disgyblion. Bydd gan safle'r ysgol newydd fannau chwarae awyr agored newydd, ystafell ddosbarth awyr agored, ardal ysgol goedwig ac Ardal Gemau Aml-ddefnydd (MUGA), a bydd pob man yn gwbl hygyrch.

Bydd y manteision cadarnhaol yma i gymuned yr ysgol hefyd yn wir yn y gymuned leol, gan y bydd y cyfleusterau yma hefyd ar gael at ddefnydd y gymuned. Bydd yr ysgol yn cael ei chefnogi i sefydlu cysylltiadau â grwpiau cymunedol lleol i sicrhau y gall pawb elwa o'r buddsoddiad cadarnhaol yma.

Bydd y cynnig hefyd yn cynnwys adolygiad o lwybrau diogel i'r ysgol ac, os bydd angen, buddsoddiad mewn gwelliannau i lwybrau cerdded, croesfannau ffyrdd a mesurau arafu traffig i sicrhau bod y safonau diogelwch gofynnol yn cael eu bodloni.

Mae rhagor o wybodaeth am effaith y cynnig ar ddisgyblion, gan gynnwys sut mae'r cynnig yn cyfrannu at bob un o saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, yn ogystal ag asesiad o'r cynnig ar y pum ffordd o weithio, ar gael yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn Atodiad B.

**Cymunedau Diogel**

Bydd yr ysgol newydd yn cael ei dylunio i gydymffurfio â 'Diogelu Drwy Ddylunio' a fydd yn sicrhau, ymhlith ffactorau eraill, bod ffin ac adeiladau'r ysgol yn cael eu diogelu'n llawn gyda theledu cylch cyfyng. Bydd dyluniadau'n cael eu datblygu ar y cyd â'r Swyddog Cynllunio i Atal Troseddu lleol gan sicrhau bod diogelwch ysgolion a'r gymuned yn egwyddorion allweddol sydd wedi'u hymgorffori yn y broses.

Bydd yr ysgol yn gwbl hygyrch ac yn ysgol gymunedol gwbl integredig. Y gobaith yw bydd yr ysgol newydd yn cael ei dylunio yn yr ysgol fel bod modd i'r gymuned leol ddefnyddio'r cyfleusterau'n ddiogel, a hynny yn ystod y diwrnod ysgol ac ar ei ôl. Bydd defnydd llawn y gymuned o'r cyfleusterau yn dibynnu ar ddatblygiad prosiect pellach a gaiff ei gynnal wrth i'r broses ddylunio fynd rhagddi.

Bydd yr ysgol newydd yn sefydlu perthynas newydd gyda Heddlu De Cymru a'r Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu lleol.

O ystyried lleoliad arfaethedig yr ysgol newydd does dim pryderon ynghylch diogelwch y cyhoedd.

**Meithrin Cysylltiadau â'r Gymuned**

Mae croeso i aelodau o'r gymuned sy'n dymuno cael rhagor o wybodaeth am y cynlluniau i adeiladu ysgol arbennig newydd fynd i sesiwn galw heibio gyhoeddus ble bydd modd iddyn nhw drafod y cynnig gyda swyddogion o Gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor. Caiff yr achlysur ymgysylltu yma ei gynnal ddydd Mawrth 22 Awst 2023 rhwng 15:00 a 18:30 yn Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Cwm Clydach, Tonypandy, CF40 2XX.